PUGH, ELLIS (1656 - 1718), Crynwr ac awdur Annerch ir Cymru

Enw: Ellis Pugh
Dyddiad geni: 1656
Dyddiad marw: 1718
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Crynwr ac awdur Annerch ir Cymru
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Penrhos gerllaw Tyddyn y Garreg ym mhlwyf Dolgellau, Sir Feirionnydd, ym mis Mehefin 1656 (ym mis Awst yn ôl NLW MS 9270A). Buasai ei dad farw cyn geni'r mab, a bu'r fam farw ychydig ddyddiau ar ôl ei eni. Pan oedd yn 18 oed ymunodd â'r Crynwyr, dan ddylanwad John ap John; chwe blynedd yn ddiweddarach dechreuodd weinidogaethu gyda'r Crynwyr. Yn 1686 cychwynnodd ef a'i deulu a llu o Gymry eraill ar y daith hir i Pennsylvania. Cyraeddasant Barbadoes fis Mawrth 1687 a Pennsylvania yn yr haf. Ymsefydlodd Pugh yn agos i Gwynedd, Philadelphia County (Montgomery County yn awr). Bu'n amaethu ac yn gweinidogaethu i'w gyd- Gymry. Yn 1706 aeth i Gymru, eithr dychwelodd yn 1708 a pharhau i weinidogaethu. Bu farw 3 Hydref (3 Rhagfyr medd *Blackwell*) 1718. Gadawodd ar ei ôl lawysgrif ei *Annerch ir Cymru*. Trefnwyd gan Grynwyr Haverford a Gwynedd i argraffu'r gwaith hwn, yn ôl dymumad yr awdur, a chyhoeddwyd ef yn Philadelphia - ' Argraphedig yn Philadelphia, Ymhensilfania, gan Andrew Bradford, MDCCXXI ' - y llyfr Cymraeg cyntaf a argraffwyd yn U.D.A. (Y mae copi ohono yn Ll.G.C.) Ailargraffwyd y gwaith yn Llundain yn 1782 ac 1801. Cafwyd argraffiad Saesneg - ' Translated from the British Language by Rowland Ellis. Revis'd and corrected by David Lloyd ', ac argraffwyd y cyfieithiad hefyd, o dan y teitl *A Salutation to the Britains*, yn Philadelphia, ' Printed by S. Keimer, for W. Davies, Bookbinder, in Chesnut-Street, 1727.' Cafwyd hefyd argraffiadau o'r cyfieithiad yn Llundain yn ddiweddarach - yn 1732, 1739, a 1793.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MS 9270A: A Dictionary of Welsh Biography

H. Blackwell, 'A Bibliography of Welsh Americana,' 1942 ('atodiad' i *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*)

The Cambrian(Utica), 1903, 228-32

R. Prys Morris, *Cantref Meirionydd ei chwedlau, ei hynafiaethau, a'i hanes* (1890)1890, 144-7

J. Bowden,*The history of the Society of Friends in America* (1850, 1854), 1854, ii, 259

A Collection of Memorials concerning Divers deceased Ministers ... of the People called Quakers in Pennsylvania (1788), 1787, 1788

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 52127996

Wikidata: Q18761942

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu